

Ymledu crebachiadau yn y falf bwlmonaidd gan ddefnyddio balwân

**Deall arweiniad NICE –
gwybodaeth i bobl sy'n ystyried y
weithdrefn, a'r cyhoedd**

**Ymledu crebachiadau yn y falf bwlmonaidd gan ddefnyddio balŵn
Deall arweiniad NICE – gwybodaeth i bobl sy'n ystyried y
weithdrefn, a'r cyhoedd**

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2004

I archebu copïau

Gellir archebu copïau o'r llyfryn hwn o Linell Ymateb y GIG; ffoniwch 0870 1555 455 a dyfynnwch rif cyfeirnod N0602. Mae copi Saesneg yn unig ar gael hefyd, rhif cyfeirnod N0601. Mae arweiniad ymyriadau NICE y seiliwyd y wybodaeth hon arno ar gael o wefan NICE (www.nice.org.uk). Gellir cael copïau hefyd o Linell Ymateb y GIG, rhif cyfeirnod N0600.

Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol

MidCity Place
71 High Holborn
London
WC1V 6NA

Gwefan: www.nice.org.uk

ISBN: 1-84257-665-8

Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol
Mehefin 2004

Gosodwyd y Testun gan Icon Design, Eton
Argraffwyd gan Abba Litho Sales Limited, Llundain

©Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol, Mehefin 2004 .
Cedwir pob hawl. Gellir atgynhyrchu'r deunydd hwn am ddim at
ddibenion addysgol ac at ddibenion nad ydynt yn gysylltiedig ag elw o
fewn y GIG. Ni chaniateir atgynhyrchu gan neu ar gyfer sefydliadau
masnachol heb ganiatâd ysgrifenedig uniongyrchol y Sefydliad
Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol.

Cynnwys

Ynglŷn â'r wybodaeth hon	4
Ynglŷn ag ymledu crebachiadau yn y falf bwlmonaidd gan ddefnyddio balŵn	5
Beth y mae NICE wedi'i benderfynu?	7
Beth y mae'r penderfyniad yn ei olygu i chi	9
Gwybodaeth bellach	10

Ynglŷn â'r wybodaeth hon

Mae'r wybodaeth hon yn disgrifio'r arweiniad y mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE) wedi ei ddsbarthu i'r GIG ar weithdrefn a elwir yn ymledu crebachiadau yn y falf bwlmonaidd gan ddefnyddio balŵn. Nid yw'n ddisgrifiad cyflawn o'r hyn y mae'r weithdrefn yn ei olygu – dylai tîm gofal iechyd y claf ei disgrifio yn fanwl.

Mae NICE wedi edrych ar p'un a yw ymledu crebachiadau yn y falf bwlmonaidd gan ddefnyddio balŵn yn ddigon diogel ac yn gweithio'n ddigon da i'w ddefnyddio'n rheolaidd.

Er mwyn llunio'r arweiniad hwn, mae NICE wedi:

- edrych ar ganlyniadau astudiaethau ar ddiogelwch ymledu crebachiadau yn y falf bwlmonaidd gan ddefnyddio balŵn a pha mor dda y mae'n gweithio
- gofyn am farn arbenigwyr
- gofyn am farn sefydliadau sy'n cynrychioli gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a'r cleifion a'r gofalmwyr y bydd yr arweiniad hwn yn effeithio arnynt.

Mae'r arweiniad hwn yn rhan o'r gwaith y mae NICE yn ei wneud ar 'ymyriadau' (gweler 'Gwybodaeth bellach' ar y dudalen olaf).

ag ymledu crebachiaid yn y falf bwlmonaidd gan ddefnyddio balwân

Mewn achos o grebachu yn y falf bwlmonaidd, mae un o'r falfiau yn y galon yn fwy trwchus nag arfer, yn anffurfiedig ac/neu yn gulach nag arfer. Yn hytrach na gwneud ei gwaith arferol, sef atal y gwaed rhag llifo yn y cyfeiriad anghywir drwy'r galon, mae'n atal gwaed rhag llifo yn y cyfeiriad cywir. Gall cyhyr cyfagos y galon dewychu er mwyn ceisio gwrthio'r gwaed yn galetach drwy'r rhwystr. Mae crebachu yn y falf bwlmonaidd fel arfer yn 'gynhwynol' – hynny yw, mae'n bresennol o'ch geni.

Mae ymledu gan ddefnyddio balwân yn golygu pasio balwân bach nad yw wedi'i chwythu, i fyny drwy bibell waed ym mhen uchaf y goes ac i mewn i'r ardal lle ceir rhwystr yn y galon. Yna caiff y balwân ei chwythu'n araf i ehangu'r ardal lle ceir rhwystr er mwyn i waed allu llifo'n haws.

Pa mor dda y mae'n gweithio

Yr hyn a ddywedodd yr astudiaethau

Dangosodd pob astudiaeth a ganfuwyd gan NICE, ar ôl i gleifion gael triniaeth ymlediad gan ddefnyddio balwân, y gallai'r gwaed lifo'n haws drwy'r falf. Ymddangosai fod yr effaith hon yn hirdymor, am ei bod yn parhau ymysg cleifion a archwiliwyd eto fwy nag 11 mis ar ôl iddynt gael y weithdrefn. Mewn un astudiaeth a oedd yn

cynnwys 533 o blant, gwelodd tri chwarter ohonynt welliant uniongyrchol yn llif y gwaed drwy'r galon ar ôl y weithdrefn.

Yr hyn a ddywedodd yr arbenigwyr

Dywedodd yr arbenigwyr fod y weithdrefn hon eisoes yn cael ei defnyddio ac nad oedd ganddynt bryderon ynglŷn â pha mor dda y mae'n gweithio.

Risgiau a phroblemau posibl

Yr hyn a ddywedodd yr astudiaethau

Nid oedd llawer o'r astudiaethau yn disgrifio'r problemau a oedd gan y cleifion. Roedd un astudiaeth sef yr un fwyaf manwl yn cynnwys 811 o gleifion. Yn ôl yr astudiaeth hon, roedd gan gleifion:

- broblemau gyda churiad y galon (8 claf)
- gwaedu yn y man lle y rhoddwyd y tiwb cul i mewn i'r corff (sef y tiwb a ddefnyddir er mwyn i'r balw'n gyrraedd y galon) (7 claf)
- torthen waed yn y bibell waed yn y goes y rhoddir y tiwb ynddi (5 claf)
- ocsigen isel yn y corff (3 chlaf)
- gwaed yn llifo tuag yn ôl yn y galon (2 glaf)

- niwed i'r bibell waed yn y goes (2 glaf)
- torthen waed yn y rhydveli (2 glaf)
- niwed i gyhyr y galon (1 claf)
- ataliad anadlol, lle bydd anadlu'r claf yn methu (1 claf).

Bu farw 2 berson o blith yr 811 o gleifion a gafodd y weithdrefn.

Yr hyn a ddywedodd yr arbenigwyr

Dywedodd yr arbenigwyr ei bod yn gyffredin i ryw faint o waed lifo tuag yn ôl drwy'r galon ar ôl y weithdrefn, ond nad oedd yr effeithiau hirdymor yn hysbys.

Credai'r arbenigwyr y byddai'r risg y byddai'r pethau hyn yn digwydd yn uwch ymysg babanod newydd-anedig nag ymysg babanod hŷn a phlant, a dywedasant y dylid cynnal y weithdrefn mewn unedau'r galon i blant lle y ceir staff sy'n brofiadol yn y maes hwn.

Beth y mae NICE wedi ei benderfynu?

Mae NICE wedi ystyried y dystiolaeth ar ymledu gan ddefnyddio balŵn. Mae wedi argymhell pan fydd meddygon yn ei ddefnyddio ar gyfer crebachiadau yn y falf bwlmonaidd, y dylent sicrhau:

- bod y claf, eu gofalwyr neu'r ddau yn deall yr hyn y mae'r weithdrefn yn ei olygu ac yn cytuno (rhoi caniatâd) i gael y driniaeth, ac
- y caiff canlyniadau'r weithdrefn eu monitro.

Mae NICE wedi argymhell mai dim ond mewn unedau arbenigol lle y gwneir llawdriniaethau'r galon i blant y dylid cynnal y weithdrefn ymledu crebachiadau yn y falf bwlmonaidd gan ddefnyddio balw'n.

Mae NICE hefyd wedi annog meddygon i anfon gwybodaeth am bob claf sy'n cael y llawdriniaeth a'r hyn sy'n digwydd iddynt ar ôl hynny i gronfa wybodaeth ganolog. Diben hyn yw sicrhau y gellir gwirio diogelwch y weithdrefn a pha mor dda y mae'n gweithio dros amser. Gelwir y gronfa wybodaeth ganolog yn Gronfa Ddata Ganolog y DU ar gyfer Archwilio Llawdriniaethau'r Galon, ac fe'i rheolir gan yr Adran Iechyd.

Sylwadau eraill gan NICE

Mae NICE wedi tynnu sylw at y ffaith bod meddygon arbenigol o'r farn bod ymledu gan ddefnyddio balw'n yn gweithio. Ond am na chynhaliwyd llawer o astudiaethau i edrych ar y weithdrefn, ni cheir llawer o dystiolaeth wyddonol i ddangos ei bod yn gweithio'n dda neu pa mor aml y mae'n achosi problemau.

Er bod y rhan fwyaf o'r wybodaeth am y weithdrefn yn seiliedig ar ei defnydd ymysg babanod a phlant, gellir ei defnyddio ymysg oedolion hefyd.

Beth y mae'r penderfyniad yn ei olygu i chi

Efallai fod eich meddyg wedi cynnig y weithdrefn ymledu crebachiaid yn y falf bwlmonaidd gan ddefnyddio balw'n i'ch plentyn. Mae NICE wedi ystyried y weithdrefn hon am ei bod yn gymharol newydd. Mae NICE wedi penderfynu bod y weithdrefn yn ddigon diogel ac yn gweithio yn ddigon da iddi gael ei defnyddio yn y GIG. Er hynny dylech ddeall manteision a risgiau ymledu gan ddefnyddio balw'n cyn i chi gytuno i'r weithdrefn. Dylai eich meddyg drafod y manteision a'r risgiau gyda chi. Efallai fod rhai o'r manteision a'r risgiau hyn wedi'u disgrifio uchod.

Mae NICE hefyd wedi annog meddygon i gasglu rhai manylion am bob claf sydd wedi cael y weithdrefn hon yng Nghymru a Lloegr. Caiff y manylion hyn eu cadw'n gyfrinachol ac ni fyddant yn cynnwys enw'r cleifion. Dim ond i weld pa mor ddiogel yw'r weithdrefn a pha mor dda y mae'n gweithio y caiff y wybodaeth ei defnyddio. Os byddwch yn penderfynu cael y weithdrefn ymledu gan ddefnyddio balw'n, efallai y gofynnir i chi gytuno i roi manylion eich plentyn ar gronfa ddata electronig at y diben hwn. Bydd y clinigwr sy'n gofalu am eich plentyn yn egluro diben casglu'r data i chi yn llawn a pha fanylion a gedwir.

Gofynnir i chi lofnodi ffurflen ganiatâd. Os na fyddwch yn cytuno i'r manylion gael eu rhoi mewn cronfa ddata electronig, bydd hawl gennych i gael y weithdrefn o hyd.

Gwybodaeth bellach

Mae gennych hawl i gael yr holl wybodaeth ac i gymryd rhan yn y penderfyniad a wneir am y driniaeth a gewch. Efallai y byddwch am drafod yr arweiniad hwn gyda'r meddygon a'r nyrsys sy'n gofalu am eich plentyn.

Gallwch ymweld â gwefan NICE (www.nice.org.uk) i gael gwybodaeth bellach am y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol a'r Rhaglen Ymyriadau. Mae copi o'r arweiniad llawn ar ymledu crebachiadau yn y falf bwlmonaidd gan ddefnyddio balŵn ar wefan NICE (www.nice.org.uk/IPG067guidance), neu gallwch archebu copi o'r wefan neu drwy ffonio Llinell Ymateb y GIG ar 0870 1555 455 a dyfynnu rhif cyfeirnod N0600. Mae'r dystiolaeth a ystyriodd NICE wrth ddatblygu'r arweiniad hwn hefyd ar gael o wefan NICE.

Os hoffech gael mwy o wybodaeth am broblemau'r galon, mae Galw Iechyd Cymru yn fan cychwyn da, ffoniwch 0845 4647, neu Galw Iechyd Cymru Ar-lein (www.nhsdirect.wales.nhs.uk).

Dyddiad: Mehefin 2004